

**COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR Y 3YDD O EBRILL 2024**

Yn bresennol:	Y Cadeirydd Hefin W. Jones.
Y Cynghorwyr:	Helen W Jones, Aron Roberts, Enid Roberts, Idwal Williams, Richard Davies.
Hefyd yn bresennol:	Karen Hughes (Swyddog Ariannol) Elfed Roberts (Cyngorydd Sir) Lona Williams (Clerc)
Ymddiheuriadau	Llywarch Davies, A Huw Jones. Keith O'Brien,

**2374 - COFNODION**

Cyflwynwyd, cadarnhawyd a llofnodwyd cofnodion y 6ed o Fawrth fel y rhai cywir gan y Cadeirydd.

**2375 - MATERION YN CODI O'R COFNODION**

1401(3b) a 2191(1) - Garej Lôn – Dim adroddiad pellach, adroddwyd bod e-bost wedi ei dderbyn gan y sergeant Simon Barlow i Adrian Roberts a bod y cyngor wedi ei atodi. Nodai'r e-bost bod yr heddlu'n delio gyda'r sefyllfa fel bo'r angen a bod swyddogion lleol am barhau i batrolio'r pentref.

1774(4) - Gardd Sylvia Crowe, Sgwar y Ddraig a'r Adeilad Man Gwyllo – Dim adroddiad pellach.

1842(2) a 1878(7) a 2024(4) - Cyflymder a Goleuadau Stryd Bronaber/ Damweiniau ar ffordd A470/A4212 – Adroddodd y Cyngorydd Elfed Roberts nad oedd wedi derbyn ymateb hyd yma gan Carina o'r sefydliad Gan Bwyll a'i fod am gysylltu eto. Derbyniodd adroddiad gan Iwan Roberts o'r heddlu'n nodi nad oedd damweiniau wedi digwydd yn Nhrawsfynydd ers ei gysylltiad diwethaf yn 2021. Cytunwyd y byddai'r cyngorydd Elfed Roberts yn cysylltu â Ken Skates er mwyn adrodd yn ôl am y damweiniau sydd wedi digwydd yn ystod y 3 mlynedd diwethaf.

1962(1) a 2138 - Adeiladau Cyhoeddus y Pentref – Adroddwyd bod Mr Adrian Roberts wedi ail gyflwyno'r cais gyda man newidiadau ddiwedd mis Mawrth a'u bod yn aros am benderfyniad.

2068(2) - Mynwent Pen Cefn – Adroddwyd bod Chris Hall am wneud yr arolwg yn ystod Mis Ebrill.

2085(3) - Llys Ednowain – Adroddwyd bod y Swyddog Ariannol wedi cysylltu a Tom Parry a bod 'Sales Instructions' o'r newydd wedi eu gyrru i'r cyfreithwyr. Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan Iwan Jones am ddod i gyfaddawd am y pris gwerthu.

2099(6) - Marciau Gwyn y Pentref/Maes Parcio Bryn Glas – Adroddwyd bod y cadeirydd Hefin Jones wedi trafod gyda Mr Rhys Williams Tyddyn Du am gwmni a weithiai iddo oedd yn gosod marciau gwyn. Cytunwyd i dynnu lluniau o'r marciau gwyn, mesur y llinellau a gyrru cynllun i Rhys er mwyn iddo ei brisio i'r cyngor.

2229(7) - Lloches Bws Ty Gwyn – Cytunwyd i ail gyfeirio'r e-bost i Rhian Williams.

2247(2) - Meinciau Gardd Salem – Adroddodd y Cyngorydd Enid Roberts bod y gwaith yn parhau.

2252(3) - Cofeb Hedd Wyn (Naomi Jones Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri) – Adroddwyd bod angen cyfarfod gyda’r cyngor er mwyn cadarnhau’r briff a threfnu mesuriad manwl o’r safle er mwyn cael opsiynau i ddatblygu’r briff. Cynigodd Rhys Davies y swm o £2,500 heb TAW gyda 60% o’r swm yn ddyledus ar ôl cytuno gyda opsiwn oedd yn ffafrio. Derbyniwyd e-bost gan Naomi Jones yn datgan fod y Parc Cenedlaethol yn cynig cymorth grant ar gyfer y gwaith dan sylw ond nad oedd swm pendant wedi ei drafod eto. Cytunwyd i drefnu cyfarfod gyda Naomi er mwyn trafod y camau nesaf ar hyn sy’n ddisgwyliedig gan y cyngor.

2255(1) - Pont droed Llyn Trawsfynydd – Cytunwyd i yrru e-bost i Elin Parry Jones o gwmni Magnox er mwyn trefnu cyfarfod yn arbennig i drafod y bont. Adroddwyd gan y cadeirydd bod Liz Saville Roberts a Bill Hamilton yn awyddus i drafod y bont mewn cyfarfod ac y bydd rhaid trefnu’r cyfarfod hwn ar nos Lun yn ystod mis Mai oherwydd ymrwymadau eraill gan Liz Saville Roberts. Cytunwyd i osod y faner ar gyfer ras y llyn ar y 7fed o Ebrill.

2321(6) - Cae Chwarae Ty Llwyd – Adroddwyd bod y gwaith i’w gwblhau yn ystod yr wythnos yr 8fed o Ebrill.

2327(2) - Sedd Wâg – Adroddwyd bod yr hysbyseb wedi ei roi ar y safle we. Gofynwyd i’r Swyddog Ariannol wirio’r rheolau er i gadarnhau y gofynion ar gyfer bod yn Gyngorydd.

2333(11) - Ffordd tu cefn i 1-6 Bro Prysor – Adroddwyd nad oedd gan Adra fwriad i ail ymweld ar mater ar hyn o bryd a chynghorwyd ganddynt i argymhell i’r rheiny oedd yn cael eu heffeithio geisio cyngor cyfreithiol annibynnol. Cytunwyd i yrru e-bost i Adra’n datgan eu bod wedi cytuno pan werthwyd y tir i gadw’r hawl tramwy yn glir.

2334(1) - Gwefan y Cyngor – Y Swyddog Ariannol wedi bod mewn cysylltiad er mwyn trefnu cyfarfod. Dyddiad y cyfarfod dros teams i’w gadarnhau.

2335(2) - Polisi Claddu Lleol – Y Cyngor wedi derbyn y newidiadau yn y rheolau a’r cytundeb newydd.

2362(2) - Polisi Cyfieithu y Cyngor – Derbyniodd y Swyddog Ariannol ymateb i’r e-bost yn nodi nad oedd gan y comisiynydd unrhyw awdurdod i osod unrhyw reolau na chanllawiau ar faterion talu am gyfieithydd o fewn cynghorau tref a chymuned a mai penderfyniad y cyngor yw hyn. Cytunwyd i e-bostio cynghorau eraill er mwyn derbyn cyngor ar y polisi hwn a sut y maent yn geirio’r polisi.

2365(1) – Y Fferyllfa – Bydd y fferyllfa’n cau ar y 1af o Fai. Adroddwyd gan y fferylllydd Steffan John bod cytundeb ar gael a bod dau wedi rhoi cais i mewn sef Fferyllwyr Llyn a Ravi o’r cwmni New Horizons Pharmacy. Bydd 28 diwrnod wedyn o gyfnod ymgynghori cyn y gwneir penderfyniad gan y bwrdd iechyd am bwy fydd yn derbyn y cytundeb. Cytunwyd i yrru e-bost i’r bwrdd iechyd er mwyn cael diweddariad. Cynigwyd gwasanaeth i ddsbarthu’r presgriptiwn yn uniongyrchol i’r tai yn Nhrawsfynydd. Bydd pamffledi’n cael eu dosbarthu o amgylch y tai o fewn y mis.

2367(1) – Clirio Llys Ednowain – Mae gwaith o glirio’r dogfennau o Llys Ednowain wedi ei ddechrau ond mae cryn dipyn o waith i’w wneud eto.

2367(2) – Safle Bws Maes Gwyndy - Cytunwyd i ail yrru’r ohebiaeth ymlaen.

2367(4) - Ffordd o’r Chalets Bronaber i Penstryd – Dim ymateb gan Adrian Williams hyd yma. Cytunwyd i ail yrru’r e-bost unwaith yn rhagor a chynnwys y cynghorydd Elfed Roberts yn yr e-bost.

2367(7) – Cwmni Eginio - Derbyniwyd e-bost gan Gwmni Eginio yn nodi nad oes penderfyniad pendant wedi ei wneud eto ynglyn ar prosiect niwclear. Cytunwyd i e-bostio eto yn datgan ein siom bod y pwyslais ar safle’r Wylfa, a byddem yn hoff o ddiweddariad unwaith y bydd mwy o wybodaeth

2367(8) – Ffordd Cyngor at Bryn Llin – Cytunwyd i ail yrru’r e-bost i Adrian Williams Cyngor Gwynedd.

### **2376 – GOHEBIAETH**

- (1) Cais Cynllunio - NP5/78/L170E - Newid defnydd o Amgueddfa (D1) i Siop a Swyddfa Bost (A1), Llys Ednowain, Trawsfynydd, LL41 4UB – cytunwyd derbyn a chefnogi y cais.
- (2) Cais Cynllunio - NP5/78/L170C - Newid defnydd o Storfa i Fferyllfa, Llys Ednowain, Trawsfynydd, LL41 4UB – cytunwyd derbyn a chefnogi y cais.

### **2377 - ADRODDIAD ARIANNOL**

- (1) Derbyniwyd a chadarnhawyd yr adroddiad ariannol a gyflwynwyd gan y Swyddog Ariannol.

### **2378 – CADARNHAU RHEOLAU A PHOLISIAU**

- (1) Cadarnhawyd Rheolau, Polisiau, Meddiannau y Cyngor a'r Asesiad Risg.

### **2379 - MATERION I'W TRAFOD AR Y PRYD**

- (1) Safle Bws Bron Aber - Adroddwyd bod bin ysbwriel yn llawn yn y safle bws ym Mron Aber. Cytunwyd y byddai'r cynghorydd Richard Davies yn mynd yno i glirio'r sbwriel.
- (2) Drain ar ffordd Stesion - Adroddwyd bod drain ar hyd ffordd i fyny tuag at Stesion yn hongian drosodd o'r fynwent. Cytunwyd gofyn i gwmni Tir a Choed i wneud y Gwaith.
- (3) Adroddwyd bod 6 Bro Islyn a 22 Cefn Gwyn yn destun pryder i'r trigolion. Cytunwyd i'r cynghorydd Elfed Roberts wneud ymholiadau am ddefnydd y tai.
- (4) Bryn y Gofeb - Cytunwyd y byddai'r cynghorydd Enid Roberts yn gofyn i Robert Williams drwsio y bariau metal sydd ar wal ym Mryn y Gofeb.

Nid oedd materion ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Nid oedd adroddiadau o'r cyfarfodydd yn ystod y mis.

**CYFARFOD NESAF 1af o Fai 2024**